Cyngor Tref **Y Fenni**
**Abergavenny** Town Council

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
2024 – 25



# Croeso gan y Maer 2024-25

**Fel un sy'n byw yn y Fenni ers dros 75 o flynyddoedd, roedd yn fraint ac anrhydedd cael fy ethol yn Faer Tref y Fenni gan fy nghyd-gynghorwyr, a chael dilyn yn ôl traed cyn-feiri'r Dref, mae'n parhau i fod yn anrhydedd cael gwasanaethu fy nhref enedigol.**



**Dros y 12 mis diwethaf, rwyf wedi cael y fraint o gael mynychu nifer o ddigwyddiadau fel eich Maer.**

Fy elusennau oedd Sight Cymru a Dandelion Wishes, ac roeddwn yn falch o gael rhoi siec i'r ddwy elusen ar ddiwedd fy nghyfnod. Bydd rhoi sylw penodol i rai o'r digwyddiadau i mi eu mynychu'n anodd, am fod pob un yn rai mor arbennig, fel cwrdd â Danielle Farrington yn yr Ŵyl Ieuenctid Integredig ym Mharc Bailey, sy'n adnabyddus am ei gwaith celf a murluniau hyfryd o gwmpas y dref. Cefais y fraint o arwain Cynghorwyr y Dref yn ystod D-Day80, ein Parêd Sul y Cofio blynyddol, a VE80.

Roedd dathlu enillwyr y gystadleuaeth Cymru yn ei Blodau yn uchafbwynt, nid yn unig ar gyfer yr holl wirfoddolwyr a weithiodd mor galed i blannu arddangosfeydd hardd ar gyfer y beirniaid, ac roedd cael casglu plât yr enillydd ar gyfer y Categori Tref yn ystod y Swper Cymru yn ei Blodau yn The Angel Hotel yn hynod gyffrous.

Ond nid yw pob un o rolau'r Maer yn cael eu cymryd o ddifrif, fel i lawer ei ganfod! O flaen 200 o bobl, cefais ennyd o anghofrwydd, pan anghofiais enw, ond drwy broses o ddileu, llwyddais yn y diwedd i gofio pwy yr oeddwn i fod i'w cyflwyno!

Roedd y Swper Cymunedol a'r Seremoni Wobrwyo yn uchafbwynt arbennig i mi, am i'r digwyddiad gael ei gynnal yn Neuadd Llanwenarth o fewn fy etholaeth. Llongyfarchiadau i Matt Lane, Danielle Farrington, Jo Nugent a'r tîm yn The Angel Hotel, Viv Evans a Mike Hodges sydd i gyd wedi derbyn gwobrau.

Mae'n braf cael gweld fod creu lleoedd ar gyfer y Fenni ar ei ffordd at y drafft terfynol, gyda chymorth rhagorol gan Chris Jones, Owen Davies a'u timau.

Rhaid rhoi sylw arbennig i Zoe a Ben, a'r holl staff gwych yn The Media Agency. Sut wnaethon nhw ddelio â'm chwarae o gwmpas (mae ganddyn nhw bopeth ar ffilm rwy'n meddwl)! Cafodd y Fenni y fraint o gael mapio 3D, nid yn unig o Neuadd y Dref ond hefyd ardaloedd eraill o'r dref, dan arweiniad Leighton Morris a'r system Matterport. Cafodd fy wyres Samiya a minnau ddarparu darn i'r camera, a ddangoswyd hwnnw yn Llysgenhadaeth America yn Llundain, yn ystod cynhadledd Matterport.

Rwyf wedi cyfarfod cymaint o bobl hyfryd yn ystod fy mlwyddyn, gyda Helen Mifflin DL, Uchel Siryf Gwent, Catherine Fookes AS, a Jo Stevens AS yn eu plith.

Ar gyfer un o'm dyletswyddau swyddogol olaf, cefais y pleser o wahodd Tîm Pêl-rwyd dan 12 y Fenni i Barlwr y Maer, yn dilyn eu llwyddiant yn cyrraedd rownd derfynol Cymru yn y gogledd. Roeddwn yn falch o gael cyflwyno grant tuag at git newydd ar gyfer eu Cystadleuaeth Genedlaethol. Roedd yn hyfryd cael eu gweld yn mwynhau eu hamser yn ymweld â ni, gwisgo gwisg a chadwyn y Maer, a dylech yn sicr gadw golwg amdanynt yn y blynyddoedd i ddod fel Cynghorwyr posib.

Roedd yn fraint ac yn anrhydedd i fachgen o'r Fenni gael dod yn Faer Tref y Fenni. Diolch am ein caredigrwydd a'ch cefnogaeth drwy gydol fy mlwyddyn fel Maer.

# Cefndir yr Adroddiad hwn

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn amlinellu nodau Cyngor Tref y Fenni ar gyfer 2024-25 ac yn tynnu sylw at y prif lwyddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf. Fe welwch hefyd gipolwg ar ein gwasanaethau a sut i gysylltu â ni.

## Gwybodaeth am Gyngor Tref y Fenni

Cyngor Tref y Fenni yw'r corff llywodraethu lleol ar gyfer y Fenni, gan gynrychioli'r gymuned gydag 17 o gynghorwyr ar draws 6 ward. Mae manylion yr holl gynghorwyr, wardiau a llawer mwy ar gael ar wefan y Cyngor Tref: **www.abergavennytowncouncil.gov.uk** Mae'r wefan hefyd yn darparu gwybodaeth am gyfarfodydd y cyngor, presenoldeb cynghorwyr, lwfansau a dalwyd, canllawiau grant, ffurflenni cais, a manylion digwyddiadau sy'n digwydd ledled y Fenni.

Rydyn ni'n annog preswylwyr i fynd i gyfarfodydd y cyngor, naill ai wyneb yn wyneb neu o bell drwy gyfarfodydd hybrid. Yn ystod y sesiynau hyn, cewch gyfle i leisio eich barn yn ystod y sesiwn gyhoeddus ar ddechrau pob cyfarfod. Cynhelir cyfarfodydd yn awr yn yr Ystafell Gymunedol yn Neuadd y Dref. I gael rhagor o wybodaeth am sut i fynychu, naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithwir, cysylltwch â'r Prif Swyddog drwy e-bost: clerk@abergavennytowncouncil.gov.uk

Mae'r Cyngor Tref yn cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn: Y Cyngor Llawn bob deufis, y Pwyllgor Pobl a Chymunedau bob deufis, a'r Pwyllgor Polisi ac Adnoddau a'r Pwyllgor Amgylchedd bob mis. Ers cyflwyno newidiadau yn y Ddeddf Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, mae'r Cyngor Tref wedi ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol, fel llunio Adroddiad Blynyddol, creu Rhaglen Hyfforddi ar gyfer cynghorwyr, a datblygu templed hunanasesu ar gyfer perfformiad cynghorau. Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Adroddiad Blynyddol 2024/2025 yn nodi ein chweched adroddiad yn olynol.


Bob blwyddyn, yn ystod y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai, bydd cynghorwyr yn ethol y Maer a'r Dirprwy Faer. Ar gyfer 2024/2025, penodwyd y Cynghorydd Chris Holland yn Faer, a phenodwyd y Cynghorydd Bryony Nicholson yn Ddirprwy Faer. Mae Chris a Bryony eisoes wedi gwneud eu marc ar y cyngor, gyda Chris yn canolbwyntio ar wella hygyrchedd a chynhwysiant i bawb yn y dref, a Bryony yn cefnogi mentrau newydd sydd o fudd i gymunedau lleol. Yn ogystal, mae Chris wedi dewis dwy elusen i'w cefnogi yn ystod ei dymor fel Maer: Sight Cymru a Dandelion Wishes. Mae'r sefydliadau hyn yn adlewyrchu ei ymrwymiad i gefnogi achosion lleol sy'n hybu ac yn cryfhau'r gymuned.



Daw cyllid y cyngor yn bennaf o'r praesept, tâl ychwanegol a ychwanegir at filiau'r Dreth Gyngor ar sail rhagamcan o wariant y cyngor. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025, gosodwyd y praesept ar £594,136.

Ar ben hynny, mae ein Tîm Tref – sy'n cynnwys tri aelod o staff sy'n cael eu cyflogi drwy Adran Tir Cyngor Sir Fynwy – yn parhau i gynnal a gofalu am wardiau'r dref, gan sicrhau bod ardaloedd cyhoeddus yn lân ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, gyda'u cylch gwaith yn cwmpasu popeth o finiau sbwriel i waith cynnal a chadw cyffredinol ar y stryd.

# CYLLIDEB 2024–2025
## CYNGOR TREF Y FENNI




4

# 2024-25

| | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor yr Amgylchedd** | **51%** | £303,500 |
| **Pwyllgor Polisi ac Adnoddau** | **39%** | £231,350 |
| **Pwyllgor Pobl a Chymunedau** | **8%** | £48,750 |
| **Lwfans Sylfaenol Aelodau** | **1%** | £3,536 |
| **Swyddogaethau Dinesig** | **1%** | £3,500 |
| **Lwfans Cyfrifoldebau Penodol** | **0%** | £1,500 |
| **Lwfans Maer** | **0%** | £1,500 |
| **Lwfans Dirprwy Faer** | **0%** | £500 |

# CYLLIDEB
# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD




## O GYFANSWM Y GYLLIDEB

Mae manylion y gwariant a'r dadansoddiad canrannol i'w gweld ar y dudalen nesaf.

# 2024-25

| | | |
|---|---|---|
| **Tîm y Dref** | **49%** | £150,000 |
| **Toiledau** | **18%** | £55,000 |
| **Plannu gan gynnwys Y Fenni yn ei Blodau** | **11%** | £32,500 |
| **Biniau Gwastraff Cŵn** | **6%** | £17,500 |
| **CAMERÂU TELEDU CYLCH CYFYNG** | **5%** | £3,500 |
| **Canolfan Gwybodaeth i Ymwelwyr** | **4%** | £15,000 |
| **Gweithredu'r Cynllun Gweithredu** | **4%** | £10,000 |
| **Cyllid Grwpiau Amgylcheddol** | **2%** | £5,000 |
| **Toiledau; Biniau Glanweithdra** | **1%** | £2,000 |

# CYLLIDEB
# POLISI AC ADNODDAU




8

## O GYFANSWM Y GYLLIDEB

Mae manylion y gwariant a'r dadansoddiad canrannol i'w gweld ar y dudalen nesaf.

# 2024-25

| | |
|---|---|
| **Cyflogau** | **35%** / £80,000 |
| **Gwefan a'r Cyfryngau Cymdeithasol** | **8%** / £18,000 |
| **Canolfan Cyngor ar Bopeth** | **7%** / £16,000 |
| **MIND Sir Fynwy** | **6%** / £15,000 |
| **Cynllun Grantiau Bach** | **4%** / £10,000 |
| **Canolfan/Ymddiriedolaeth Gymunedol y Fenni** | **4%** / £10,000 |
| **ACE** | **4%** / £10,000 |
| **Gŵyl Fwyd** | **4%** / £10,000 |
| **Melville** | **4%** / £10,000 |
| **Borough Theatre** | **4%** / £10,000 |
| **7 Corners** | **4%** / £10,000 |
| **Treuliau Etholiad** | **2%** / £4,000 |
| **Grantiau Mawr** | **2%** / £4,000 |
| **Black Mountain Jazz** | **2%** / £4,000 |
| **Ffioedd Cyfrifydd** | **2%** / £3,500 |
| **Argraffu a Dosbarthu Adroddiadau Blynyddol** (Argraffu a Deunydd Ysgrifennu gynt) | **1%** / £3,000 |
| **Cymdeithas Twristiaeth y Fenni a'r Cylch** | **1%** / £3,000 |
| **Un Llais Cymru** | **1%** / £2,250 |
| **TG Swyddfa** | **1%** / £2,000 |
| **Defnyddiau Traul Swyddfa** | **1%** / £1,750 |
| **Cyrsiau Hyfforddi** | **1%** / £1,500 |
| **Yswiriant** | **1%** / £1,500 |
| **Teithio a Chynhaliaeth** | **0%** / £750 |
| **Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol** | **0%** / £600 |
| **Ffioedd Cyfieithu i'r Gymraeg** | **0%** / £500 |

# CYLLIDEB
# POBL A CHYMUNEDAU






## O GYFANSWM Y GYLLIDEB

Mae manylion y gwariant a'r dadansoddiad canrannol i'w gweld ar y dudalen nesaf.

# 2024-25

| | |
|---|---|
| **Gweithgareddau Haf (Cynllun Chwarae ac Ieuenctid MCC)** | **41%** £20,000 |
| **Goleuadau Nadolig** | **37%** £18,000 |
| **SHIFT (Cefnogaeth iechyd meddwl mewn ysgolion ar gyfer plant 11-18 oed)** | **10%** £5,000 |
| **Digwyddiadau'r Cyngor** | **10%** £5,000 |
| **Llyfrgell y Fenni** | **2%** £750 |
| **Gefeillio** | **0%** £0 |

# Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cyngor Tref y Fenni

Mae hyn yn seiliedig ar y blaenoriaethau a amlinellir yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Mae hon yn eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer pob pwyllgor ac mae'n cael ei diweddaru'n rheolaidd.

Mae prosiectau newydd wedi'u cynnwys yn y cynllun, ac mae'r rheini sydd wedi'u cwblhau yn cael eu diweddaru'n unol â hynny, gyda'r holl gynlluniau'n cael eu monitro. Gellir gweld y Cynllun Gweithredu hwn ar wefan Cyngor y Dref, **www.abergavennytowncouncil.gov.uk** neu drwy gysylltu â'r Prif Swyddog i ofyn am gopi. Yma, rydym yn nodi sut rydym wedi perfformio yn erbyn y cynllun.





Yn 2024 a 2025, cymerodd Cyngor Tref y Fenni gamau breision tuag at gyflawni'r addewidion a nodir yn ein cynllun gweithredu. Dan arweiniad ein gweledigaeth ar gyfer cymuned gynaliadwy, gynhwysol a ffyniannus, gwnaethom hyrwyddo mentrau ar draws stiwardiaeth amgylcheddol, cydlyniant cymunedol, ffyniant economaidd, cydraddoldeb a llesiant.

O ennill gwobrau cynaliadwyedd uchel eu bri a pherfformio'n dda dros ben yn y gystadleuaeth Cymru'n ei Blodau diolch i waith caled gwirfoddolwyr y dref, cefnogi cynlluniau iechyd meddwl a gwneud cynnydd ar gynlluniau Creu Lleoedd pellach, rydym wedi dangos ein hymroddiad i greu tref wydn a chysylltiedig. Drwy bartneriaethau cydweithredol, ymdrechion gwirfoddolwyr a phrosiectau arloesol, rydym yn parhau i adeiladu dyfodol sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau ein cymuned.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y llwyddiannau allweddol sy'n ymgorffori ein hymrwymiad cyffredin i greu y Fenni sy'n well, sy'n ffynnu'n gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol, gyda chyfle a hygyrchedd i bawb.

## Adran 6: Deddf yr Amgylchedd




### Gwarchod Mynydd Ben-y-fâl yn Gynaliadwy

Yn haf 2024, treialodd Cyngor Tref y Fenni gamera cylch cyfyng ynni solar ar Fynydd Ben-y-fâl mewn partneriaeth â Blue Light CCTV a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Amcan y prosiect oedd rhwystro ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwarchod y dirwedd naturiol.

Fe gyflawnodd y system ecogyfeillgar, sy'n cael ei phweru'n llwyr gan ynni adnewyddadwy, ganlyniadau rhagorol gan leihau fandaliaeth, taflu sbwriel, a galwadau brys heb gael effaith ar yr amgylchedd. Gyda dim cwynion wedi'u hadrodd dros yr haf, mae'r Cyngor bellach yn ystyried monitro blynyddol.

Mae'r fenter yn profi fod cynaliadwyedd a diogelwch y cyhoedd yn mynd law yn llaw.



### Y Fenni'n Fuddugol yng Nghystadleuaeth Cymru yn ei Blodau

Mae Cyngor Tref y Fenni'n falch o gael dathlu llwyddiant y dref yng Ngwobrau Cymru yn ei Blodau 2024, lle enillodd y Fenni'r Wobr Aur a dod yn gyntaf yng Nghategori Tref RHS Cymru.

O erddi cymunedol ac ysgolion i barciau a gofodau canol y dref, enillodd grwpiau ledled y Fenni gydnabyddiaeth ragorol. Mae uchafbwyntiau'n cynnwys Parc Bailey a Pherllan Laurie Jones yn cyflawni Lefel 5 – Rhagorol, ac Ysgol y Forwyn a Sant Mihangel yn rhannu'r wobr gyntaf am Ardd Ysgol.

Diolch i ymrwymiad anhygoel gwirfoddolwyr, ysgolion, a grwpiau lleol, mae'r Fenni'n parhau i ddatblygu fel tref fywiog, gynaliadwy, a chroesawgar. Hoffai Cyngor y Dref longyfarch a diolch yn ddiffuant i bawb a helpodd i wneud y cyflawniad hwn yn bosibl.



### Tîm y Dref: Cadw'r Fenni'n Lân, Diogel a Chroesawgar

Pan dynnwyd cyllid ar gyfer Tîm y Dref yn ôl, gweithiodd Cyngor Tref y Fenni â Chyngor Sir Fynwy i ddatblygu gwasanaeth Tîm y Dref newydd. Cydnabod rôl y tîm yn y gwaith o gadw'r dref yn lân, diogel, a bywiog. Cymerodd Cyngor y Dref y cyfrifoldeb am y cyllid a'r rheolaeth i sicrhau bod y dyletswyddau pob dydd ond hanfodol hyn yn parhau heb gael eu tarfu.

O gasglu sbwriel a thynnu graffiti, i helpu gyda digwyddiadau a glanhau traeniau, mae eu gwaith yn cynnal gwedd y dref. Mae hefyd yn gwella balchder dinesig a phrofiad ymwelwyr, gan eu gwneud yn hanfodol i lwyddiant y dref a lles o ddydd i ddydd.

## Cymru Lewyrchus



### Dod a Diwylliant yn Fyw drwy Greadigrwydd

Mae Cyngor Tref y Fenni yn parhau i hyrwyddo diwylliant a thwristiaeth drwy ei gefnogaeth ariannol flynyddol tuag at addurniadau to Gŵyl Fwyd y Fenni. Wedi'u dylunio gan y dylunydd llwyfan enwog Bettina Reeves a'u gwireddu gyda chymorth gwirfoddolwyr lleol, mae'r arddangosfeydd bywiog yn trawsnewid Neuadd y Farchnad yn ddathliad o fwyd, ffermio a chynaliadwyedd.

Mae'r addurniadau gwych hyn wedi dod yn atyniad yn eu rhinwedd eu hunain gan ddenu miloedd o ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn ac yn gwella apêl ddiwylliannol y dref. Yn gwneud mwy nag addurno'n unig, mae'r fenter yn arddangos ymdeimlad o gymuned, yn cefnogi'r celfyddydau, ac yn hyrwyddo arferion cynaliadwy, gan ei gwneud yn esiampl ragorol o dwristiaeth greadigol.



### Creu Lleoedd ar gyfer Dyfodol y Fenni

Yn 2024, lansiodd Cyngor Tref y Fenni, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Fynwy, Gynllun Creu Lleoedd Canol y Dref i lywio datblygiad a buddsoddiad yn y dyfodol.

Roedd mewnbwn gan y gymuned yn ganolog i'r broses. Trwy deithiau cerdded, sesiynau rhanddeiliaid, ac ymgynghoriadau cyhoeddus, helpodd trigolion a busnesau i greu gweledigaeth tymor-hir sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Bydd y cynllun yn fframwaith strategol ar gyfer cefnogi tref sy'n ffynnu, yn gynaliadwy, ac sy'n gynhwysol.

## Cymru Iachach



### Adfer Treftadaeth Leol

Mae Cyngor Tref y Fenni yn falch o dynnu sylw at waith anhygoel gwirfoddolwyr lleol sydd wedi adfer y potiau blodau carreg hanesyddol yng ngorsaf fysiau'r dref, mewn pryd ar gyfer beirniadu cystadleuaeth y Fenni yn ei Blodau 2025.

Mae'r potiau hirhoedlog hyn, a oedd unwaith angen eu hatgyweirio, wedi cael eu hail-bwyntio a'u hailadeiladu'n ofalus gan ddau saer maen gwirfoddol medrus iawn. Mae eu hymroddiad, eu crefftwaith, a'u horiau maith o waith caled wedi rhoi bywyd newydd i gornel o'r dref, gan helpu i fywiogi'r ardal i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae'r prosiect hwn nid yn unig harddu'r Fenni ond hefyd yn esiampl wych o ysbryd cymunedol a balchder yn ein mannau cyhoeddus.

# Cyngor Tref Mwy Ymatebol (Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-Eang)



## Y Maer Chris Holland yn Tyngu'r Llw

Ym mis Awst 2024, tyngodd y Cynghorydd Chris Holland ei lw fel Maer y Fenni mewn seremoni ddinesig yn Gaterway Church. Yn un sydd wedi byw yn y dref drwy'i oes, rhoddodd Chris araith wresog yn myfyrio ar ei wreiddiau a'i ymrwymiad i roi'n ôl i'r gymuned.

Ffocws y Maer ar gyfer ei gyfnod oedd hygyrchedd a chynhwysiant. Gan weithio gyda'r Prif Swyddog Sandra Rosser a thîm Cyngor y Dref, hyrwyddodd fentrau i wneud y Fenni yn fwy croesawgar i bawb. Ei elusennau dewisol eleni oedd Sight Cymru a Dandelion Wishes.




## Noson Elusennol y Maer yn Codi Dros £1000 at Achosion Lleol

Cynhaliodd Cyngor Tref y Fenni noson elusennol lwyddiannus yn Gateway Church i gefnogi elusennau dewisol y Maer, Dandelion Wishes a Sight Cymru.

Roedd y noson yn cynnwys cerddoriaeth fyw gan Brothers of Blues, siaradwyr gwadd o'r elusennau, ac ocsiwn bywiog a gyfrannodd tuag at godi swm anhygoel o £1,130. Cyflwynodd y Maer, y Cynghorydd Chris Holland, siec i'r ddwy elusen i gefnogi eu gwaith allweddol yn y gymuned leol.

Estynnir diolch i The Angel Hotel, Sugar Loaf Vineyards, a noddwr a oedd yn dymuno aros yn ddienw am roddi gwobrau ocsiwn, ac i bawb a fynychodd a gyfrannodd at lwyddiant y noson.




## Symud Tuag at Lywodraethu Tryloyw a Chynaliadwy

Yn 2024, fe wnaeth Cyngor Tref y Fenni foderneiddio'r ffordd mae'n rhannu gwybodaeth gyda phreswylwyr drwy newid ei Adroddiad Blynyddol i fformat digidol yn gyntaf. Fe wnaeth y newid hwn nid yn unig leihau'r effaith amgylcheddol a chostau printio ond fe wnaeth hefyd ymateb i alw'r gymuned am fwy o dryloywder.

Mae copïau print yn parhau i fod ar gael ar gais, gyda phwyntiau casglu yn y Llyfrgell a'r Ganolfan Groeso, ac mae modd cael copi wedi'i ddanfon i unrhyw un sydd methu dod i gasglu un. Cyflwynodd adroddiad 2024/25 hefyd ddadansoddiadau ariannol cliriach a chrynodebau cyllideb gweledol gan wneud gwariant y cyngor yn haws i'w ddeall ac yn fwy hygyrch nag erioed.

## Cymru o Gymunedau Cydlynus



### Anrhydeddu'r Gorffennol, Ysbrydoli'r Dyfodol

Yn 2024, cyflwynodd Cyngor Tref y Fenni raglen wefreiddiol o ddigwyddiadau i nodi 80 o flynyddoedd ers D-Day. O seremonïau wedi'u ffrydio'n fyw a digwyddiadau cymunedol i arddangosfeydd a gweithdai ysgolion, daeth y dref ynghyd i anrhydeddu dewrder ac aberth y rheiny a wasanaethodd. Creodd seremoni goleuo ffagl foment pwerus o undod cenedlaethol.

Parhaodd y parch dwfn hwn gyda Pharêd Sul y Cofio blynyddol y dref. Mae'r traddodiad pwysig hwn yn dod â chyn-filwyr, grwpiau lleol, a phreswylwyr ynghyd i dalu teyrnged. Trwy'r digwyddiadau hyn, mae'r cyngor yn parhau i warchod a hyrwyddo treftadaeth gyfoethog y Fenni wrth sicrhau fod cenedlaethau'r dyfodol yn cofio ac yn deall.

## Cymru Gydnerth



### Nodi 125 o Gyngor Tref y Fenni:

Nododd 2024 125 mlynedd ers sefydlu Cyngor Tref y Fenni, carreg filltir yn dathlu dros ganrif o wasanaeth lleol a balchder dinesig. I nodi'r achlysur, fe wnaethon gyflwyno cyfres o fideos o fyfyrdodau gan gyn-Feiri, staff, a ffigyrau o'r gymuned ynghylch yr hyn mae'r Cyngor yn ei olygu iddyn nhw ac i'r dref.

Roedd cyfranwyr yn cynnwys cyn-Feiri, ein Byrllysgwr, ac eraill sy'n chwarae rhan allweddol mewn bywyd dinesig. Tynnodd eu straeon sylw at rôl esblygol y Cyngor, pwysigrwydd arweinyddiaeth gymunedol, a'r ymrwymiad cyffredin i lywio dyfodol cadarnhaol ar gyfer y Fenni.



### Digwyddiad Goleuo'r Goleuadau Nadolig 2024: Moment o Undod a Gwydnwch

Dim ond ychydig ddyddiau cyn y Digwyddiad Goleuo'r Goleuadau Nadolig, bu tân distrywiol ar Stryd Frogmore, gan ddinistrio busnesau lleol a chael effaith ddofn ar y gymuned. Mewn ymateb, gweithiodd Cyngor y Dref yn gyflym i sicrhau y gallai'r digwyddiad fynd yn ei flaen, gan addasu cynlluniau i ddiogelu'r cyhoedd a pharchu traddodiadau'r dref.

Y canlyniad oedd y nifer uchaf erioed o fynychwyr ac arddangosfa fythgofiadwy o undod. Camodd Paul Cable i'r adwy fel Siôn Corn, er gwaethaf ei golled bersonol. Daeth y noson yn symbol o ysbryd diysgog y Fenni. Roedd yn fwy na dathliad, roedd yn foment a ddaeth â'r dref ynghyd ar adeg lle'r oedd gwir angen am hynny.

## Cymru sy'n Fwy Cyfartal




### Cefnogi 30 Mlynedd o Fasnach Deg

Roedd Cyngor Tref y Fenni'n falch o gefnogi Pythefnos Masnach Deg i nodi 30 mlwyddiant yr ymgyrch. Mae Pythefnos Masnach Deg yn parhau i hyrwyddo pwysigrwydd arferion masnach moesegol a chynaliadwy, gan sicrhau fod ffermwyr a gweithwyr ledled y byd yn derbyn tâl teg, amodau gwaith diogel, a'r cyfle i ennill bywoliaeth sicr a chynaliadwy.

Cynhaliodd Masnach Deg Sir Fynwy ystod o weithgareddau o foreau coffi â themâu a sgyrsiau addysgiadol i ddigwyddiadau ysgol a chyfranogiad yng Ngŵyl Fwyd y Fenni. Dyluniwyd gweithgareddau i ennyn diddordeb y gymuned gyfan a chodi ymwybyddiaeth o effaith Masnach Deg.

### Lansio ein Cyfres Podlediad Cyntaf



Mae Cyngor Tref y Fenni wedi lansio ei gyfres podlediad cyntaf erioed, gan nodi pennod newydd yn y ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'n cymuned. Crëwyd y podlediad i annog sgyrsiau ynghylch llywodraethu lleol, cynrychiolaeth, a'r materion sydd o'r pwys mwyaf i'r rhan fwyaf o breswylwyr - ac mewn fformat hygyrch a difyr.

Roedd y bennod gyntaf, a ryddhawyd ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched, yn cynnwys y Prif Swyddog Sandra Rosser, y Cynghorydd Laura Wright, a Chadeirydd Cyngor Sir Fynwy Su McConnell. Gyda'i gilydd, fe wnaethon nhw drafod pwysigrwydd Diwrnod Rhyngwladol y Merched a rhannu eu profiadau personol fel merched ym myd gwleidyddiaeth leol. Gyda phenodau newydd yn cael eu rhyddhau bob mis, mae'r gyfres yn parhau i amlygu lleisiau lleol a chryfhau cysylltiad cymunedol drwy adrodd straeon a thrafod.



### Gwneud y Fenni'n Hygyrch i Bawb

Mae Cyngor Tref y Fenni'n falch o arwain y ffordd pan ddaw i hygyrchedd digidol. Lansiad llwybr cerdded rhyngweithiol 3D heibio tirnodau allweddol y dref, gan gynnwys Neuadd y Dref, y Theatr, a'r Ganolfan Groeso. Wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â 3DPi ac Accessibility Enterprise Ltd, mae'r offeryn arloesol hwn yn galluogi i drigolion ac ymwelwyr grwydro lleoedd yn rhithiol gan eu helpu i gynllunio ymweliadau yn hyderus.

O unigolion ag anghenion symudedd i rieni â choetsis neu ymwelwyr niwrowahanol, mae'r daith rithiol yn darparu mewnwelediad gwerthfawr i nodweddion hygyrchedd a gosodiad. Mae'n gam ymarferol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i wneud y Fenni'n dref groesawgar i bawb.

# Cyngor Tref y Fenni: Crynodeb o'r Flwyddyn

Roedd 2024/25 yn flwyddyn o ddathlu, gwydnwch, a chynnydd ar gyfer Cyngor Tref y Fenni. O arwain mentrau cynaliadwyedd a gwella ymgysyllted digidol i gynnal digwyddiadau cymunedol a lansio ein cyfres podlediad cyntaf - rydym wedi parhau i roi preswylwyr wrth galon popeth a wnawn.

Fe wnaethon nodi ein 125 mlwyddiant gyda chyfres fideo dwymgalon, yn myfyrio ar ein gorffennol ac yn edrych ymlaen at ein dyfodol ar y cyd. Gweithiodd Tîm y Dref yn ddiflino i gadw'r Fenni'n lân, diogel, a bywiog. Fe wnaethon ni gefnogi gwasanaethau allweddol fel toiledau cyhoeddus, CCTV, arddangosfeydd blodau, casglu baw cŵn, a chefnogi nifer o sefydliadau lleol.

Fe wnaethon ni wrando ar y gymuned, gan ddigideiddio ein Hadroddiad Blynyddol, ychwanegu tryloywder ariannol, ac ehangu ein hygyrchedd gyda theithiau 3D rhithiol. Roedd ein prosiectau'n amrywio o'r camera solar ar Ben-y-fâl i lansio Cynllun Creu Lle newydd ar gyfer canol y dref. Mewn partneriaeth â Chyngor Sir Fynwy ac ymgynghorwyr lleol, rydym yn llunio dyfodol sy'n gynaliadwy, yn gynhwysol, ac yn cael ei arwain gan y gymuned.

O ddathlu diwylliannol i stiwardiaeth amgylcheddol, mae Cyngor Tref y Fenni yn parhau i gyflawni newid ystyrlon i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'n tref.



# Edrych Ymlaen: Cynaliadwy, Cysylltiedig, ac yn rhoi'r Gymuned yn gyntaf

Wrth i ni edrych i'r dyfodol, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu tref sy'n gynaliadwy, hygyrch, gwyrdd, ac yn groesawgar i bawb. Mae ein rhaglen Tref Glyfar yn gwneud cynnydd yn barod, gyda datrysiadau sy'n cael eu llywio gan dechnoleg yn lleihau'r angen am ddyfrio, yn gwella cynnal a chadw mannau cyhoeddus, ac yn lleihau allyriadau; yn profi y gall arloesedd digidol a chynaliadwyedd fynd law yn llaw.

Mae lansiad ein cyfres podlediad wedi cyflwyno ffyrdd newydd o gysylltu â phreswylwyr, a byddwn yn parhau i ddefnyddio fideo, cyfryngau cymdeithasol, a'n gwefan newydd i sicrhau y gall pawb ymgysylltu â materion lleol, rhannu adborth a dathlu cyflawniadau. Boed hynny'n cynnal digwyddiadau, cefnogi elusennau lleol, neu wella mannau cyhoeddus, mae ein hymrwymiad i wasanaeth, cynhwysiant, a thryloywder yn parhau'n gadarn.

I gymryd rhan, cael mynediad at wasanaethau'r cyngor, neu ddysgu am ddigwyddiadau sydd ar ddod, ewch i'n gwefan neu cysylltwch gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Mae'r Fenni'n perthyn i bob un ohonom a gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i lunio'i dyfodol.



## Crynodeb o'r hyn a wnawn

- Rydym yn darparu Tîm Tref i wagio'r biniau sbwriel a glanhau'r strydoedd yng Nghanol y Dref.
- Rydym yn gweithio gyda Chyngor Sir Fynwy i gadw toiledau cyhoeddus ar agor yn y dref a bod y toiledau ym Mharc Bailey ar agor ar benwythnosau a thrwy gydol gwyliau'r haf.
- Rydym yn talu'r costau ar gyfer darparu biniau glanweithiol a chlytiau yn y toiledau cyhoeddus.
- Rydym yn cyflogi contractwr i wagio'r biniau gwastraff cŵn bob wythnos.
- Rydym yn darparu'r goleuadau Nadolig yn y dref a threfnu'r digwyddiad 'goleuo'.
- Rydym yn gweithio gyda Chyngor Sir Fynwy i ddarparu teledu cylch cyfyng yng nghanol y dref.
- Rydym yn rheoli a chynnal a chadw holl botiau plannu canol y dref, basgedi crog ac arddangosfeydd blodau eraill o amgylch y dref, a gwella a hyrwyddo bioamrywiaeth.
- Darparu cefnogaeth ariannol i sicrhau bod gan y dref Ganolfan Groeso.
- Cefnogi sefydliadau a mudiadau gwirfoddol lleol fel MIND Sir Fynwy, Cyngor ar Bopeth, Canolfan Gymunedol y Fenni, ac Addurniadau Neuadd y Farchnad.



# Sut i gysylltu â Chyngor y Dref

Cysylltwch â'r Prif Swyddog drwy e-bost **clerk@abergavennytowncouncil.gov.uk** neu ffoniwch **01873 353005** neu ewch i **abergavennytowncouncil.gov.uk**

Gallwch alw draw i'r swyddfa ar y llawr cyntaf yn Neuadd y Dref, gyferbyn â'r fynedfa i'r llyfrgell. Gallwch gysylltu â'n Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned a Chymorth ar **admin@abergavennytowncouncil.gov.uk** gallwch hefyd gysylltu â'n Dirprwy Brif Swyddog ar **office@abergavennytowncouncil.gov.uk**

**Sganiwch Yma –** i weld digwyddiadau sydd ar y gweill yn y Fenni, mae'r dudalen hon yn cael ei diweddaru yn aml wrth i ni gael gwybod am ddigwyddiadau.



# Cysylltu â'r Cynghorwyr

**Ward Pen-y-fâl**

**Y Cyng Anne Wilde • Llafur** • annewilde@abergavennytowncouncil.gov.uk
**Y Cyng Gareth Wilde • Llafur** • garethwilde@abergavennytowncouncil.gov.uk
**Y Cyng Maureen Powell • Ceidwadwyr** • maureenpowell@abergavennytowncouncil.gov.uk

**Ward Lansdown**

**Y Cyng Martyn Groucutt • Llafur**• martyngroucutt@abergavennytowncouncil.gov.uk
**Y Cyng Mary Ann Brocklesby • Llafur** • maryannbrocklesby@abergavennytowncouncil.gov.uk
**Y Cyng James George • Annibynnol** • jamesgeorge@abergavennytowncouncil.gov.uk

**Ward Cantref**

**Y Cyng David Simcock • Llafur** • davidsimcock@abergavennytowncouncil.gov.uk
**Y Cyng Bryony Nicholson • Llafur** • bryonynicholson@abergavennytowncouncil.gov.uk
**Y Cyng Sara Burch • Llafur** • saraburch@abergavennytowncouncil.gov.uk

**Ward Parc**

**Y Cyng Philip Bowyer • Llafur** • philipbowyer@abergavennytowncouncil.gov.uk
**Y Cyng Kyle Eldridge • Annibynnol**
**Y Cyng Diane English • Llafur** • dianeenglish@abergavennytowncouncil.gov.uk


**Ward Grofield**

**Y Cyng Laura Wright • Llafur** • laurawright@abergavennytowncouncil.gov.uk
**Y Cyng Gethin Jones • Plaid Cymru** • gethinjones@abergavennytowncouncil.gov.uk
**Y Cyng Maurice Barnes • Llafur** • mauricebarnes@abergavennytowncouncil.gov.uk
**Y Cyng Ben Callard • Llafur** • bencallard@abergavennytowncouncil.gov.uk

**Ward Llanwenarth Citra**

**Y Cyng Chris Holland • Annibynnol** • chrisholland@abegavennytowncouncil.gov.uk

# Wardiau Cyngor y Fenni



# Cwrdd â'r Cynghorwyr

**Ward Pen-y-fâl**



**Y Cyng Anne Wilde**
Llafur



**Y Cyng Gareth Wilde**
Llafur



**Y Cyng Maureen Powell**
Ceidwadwyr

**Ward Lansdown**



**Y Cyng Martyn Groucutt**
Llafur



**Y Cyng Mary Ann Brocklesby**
Llafur



**Y Cyng James George**
Annibynnol



**Ward Cantref**



**Y Cyng David Simcock**
Llafur



**Y Cyng Bryony Nicholson**
Llafur



**Y Cyng Sara Burch**
Llafur

**Ward Parc**



**Y Cyng Philip Bowyer**
Llafur



**Y Cyng Kyle Eldridge**
Annibynnol



**Y Cyng Diane English**
Llafur

**Ward Grofield**



**Y Cyng Laura Wright**
Llafur



**Y Cyng Gethin Jones**
Plaid Cymru



**Y Cyng Maurice Barnes**
Llafur



**Y Cyng Ben Callard**
Llafur

**Ward Llanwenarth Citra**



**Y Cyng Chris Holland**
Annibynnol